# Dinas a Sir Abertawe
# Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd 2012-2013

Dyma'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ynghylch ei weithgareddau dros y **flwyddyn a ddaeth i ben ar 8 Mai 2013.** Fe'i darperir er gwybodaeth yr holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

## Cynghorydd: William Evans    Adran Etholiadol: Pontybrenin

## Aelod y Cabinet dros Ddysgu a Sgiliau

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cynhaliais gymorthfeydd cyngor misol ar ddydd Sadwrn rhwng 11.30am a 12.30pm (o leiaf) yn Nhŷ Clwb AFC Pentre'r Ardd. Hefyd, mynychais y cyfarfodydd PACT lleol yn rheolaidd ac roeddwn yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw gwynion neu ymholiadau yn amserol.

Fel aelod a chyn Faer Cyngor Tref Llwchwr, rwy'n aml yn mynychu'r cyfarfodydd misol. Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn ar gael o wefan y Cyngor yn www.llwchwrtowncouncil.gov.uk. Mae Cyngor y Dref yn gwasanaethu ac yn cefnogi preswylwyr Wardiau Pontybrenin a Chasllwchwr drwy ychwanegu at rai o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor Sir. Er enghraifft cyfleusterau hamdden yn y Neuadd Les, Heol Woodland, arddangosfeydd basgedi crog, Gorymdaith Lusernau'r Nadolig ac arddangosfa tân gwyllt ar y cyd â Chyngor Tref Gorseinon, dyfarnu grantiau ariannol i achosion teilwng yn ardal Llwchwr, darparu seddi yn y gymuned.

Lluniais a dosbarthais gylchlythyr i'm holl etholwyr, yn seiliedig ar bynciau roeddwn yn ystyried yr oedd angen gwybodaeth amdanynt ar fy etholwyr. Rwy'n derbyn nifer helaeth o alwadau ffôn gan breswylwyr sy'n gofyn am gyngor a chymorth ynghylch amrywiaeth o faterion personol ac roeddwn i'n barod i wrando ar eu pryderon a chynnig cyngor a chefnogaeth briodol. Roeddwn i'n aml yn cerdded o amgylch fy Ward ac yn adrodd am ddiffygion megis tyllau yn y ffordd, goleuadau stryd a oedd wedi torri mewn ardaloedd preswyl, arwyddion ffordd wedi'u difrodi a thipio anghyfreithlon.

Ymwelais â'r holl safleoedd lle cafwyd Ceisiadau Cynllunio a oedd yn effeithio ar Ward Pontybrenin ac roeddwn i'n aml yn cysylltu â'r tîm Heddlu Cymdogaeth lleol ac yn adrodd am gwynion a dderbyniais gan breswylwyr lleol megis, cerbydau modur yn goryrru, parcio diwahân, sbwriel a baw cŵn.

Hysbysais Swyddogion Gorfodi'r Cyngor am bob cwyn a dderbyniwyd ynglŷn â thorri Gorchmynion Rheoleiddio Traffig, megis parcio'n anghyfreithlon (troseddau parcio ar Linellau Melyn) a gofynnais am eu presenoldeb pan oedd angen.

**Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu drwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 9 / 11 | 82 % |
| Y Cabinet | 14 / 15 | 93 % |
| Fforwm Cynghorau Cymuned/Tref | 4 / 4 | 100 % |
| Y Cyngor | 15 / 16 | 94 % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 / 7 | 86 % |
| Fforwm Cyswllt â Myfyrwyr | 2 / 3 | 67 % |
| Panel Ymddiriedolwyr | 4 / 5 | 80 % |
| YN GYFFREDINOL | 54 / 61 | 89 % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd**

Roedd fy mhortffolio Aelod y Cabinet yn cynnwys Dysgu a Sgiliau, Dysgu Gydol Oes, Hyfforddiant Cyflogaeth ac addysg yn y gweithle, yr oedd gen i gyfrifoldeb strategol amdanynt ac yn parhau i fod. Fi yw'r aelod swyddog arweiniol dynodedig dros Blant a Phobl Ifanc fel sy'n ofynnol yn ôl Deddf Plant 2004. Mae rhan bwysig o'm gwaith yn cynnwys ymweld â'r 104 o ysgolion ar draws yr Awdurdod.

Bûm yn aelod o'r pwyllgorau canlynol nad ydynt wedi'u rhestru yn rhan 2 uchod.

1. Cadeirydd y Bwrdd Plant a Phobl Ifanc. (Amlasiantaeth).
2. Bwrdd Gwasanaethau Lleol.
3. Grŵp Llywio Partneriaeth Ddysgu Abertawe.
4. Cadeirydd y Grŵp Llywio Addysg o Safon 2020 (Rheoli cyflwyno Rhaglen Ysgolion y 21ain ganrif).
5. Cyd-bwyllgor Addysg Cymru.
6. Cymdeithas Cyrff Llywodraethu Abertawe.
7. Fforwm Cyllideb Addysg.
8. RHAG (Grŵp Rhieni dros Addysg Gymraeg)
9. Bwrdd Consortiwm Addysg Rhanbarthol. (SWAMWAC) Gwella Ysgolion.

***Cyrff allanol. (2012-2013)***

1. Cyngor Ymgynghorol i Fyfyrwyr ar Addysg Grefyddol.
2. Cyfarwyddwr Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Datblygu Gorseinon.
3. Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Tre Uchaf, Casllwchwr.
4. Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Pontybrenin, Pontybrenin.
5. Ward Llafur Pontybrenin.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Fe es ati i gynyddu ymwybyddiaeth fy etholwyr ynghylch y safleoedd ymgeisiol newydd posib a gweithdrefnau'r Cynllun Datblygu Lleol. Cofrestrwyd 11 safle Datblygu Tai posib ar gyfer ardal Pentre'r Ardd ac o ganlyniad anfonais dros fil o lythyron at breswylwyr lleol yn esbonio'r broses gynllunio bwysig iawn hon a dulliau i ymateb. Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus a mynychodd nifer o etholwyr.

Fel rhan o dîm y cabinet, roedd gen i ran bwysig wrth gyflwyno canlyniadau llwyddiannus i'n Hymrwymiadau Maniffesto Llafur o fis Mai, 2012, ac yn parhau i gymryd rhan ynddynt. Cyflwyno addysg o safon i'n plant a phobl ifanc a mynd i'r afael â thlodi yw dau o'r blaenoriaethau sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen honno.

Gwnaeth fy nghyfranogiad ar ran preswylwyr Parc Treftadaeth, Pontybrenin, arwain at fabwysiadu'r priffyrdd a'r goleuadau stryd ar yr ystâd o'r diwedd gan y cyngor, ar ôl cyfnod o oddeutu 12 mlynedd. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol bellach yw'r gwaith cynnal a chadw ar yr ystâd.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

| | |
|---|---|
| Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion | 04.07.2012 |
| Rheoli Datblygiad Ardal | 16.07.2012 |
| Côd Ymddygiad/Safonau | 28.08.2012 |
| Cydraddoldebau | 27.09.2012 |
| Magu Plant Corfforaethol | 15.10.2012 |
| Gwneud Penderfyniadau Da, Rhagfarn, Rhagbenderfynu a Rheolau Cyfiawnder Naturiol. | 29.11.2012 |
| Buddiannau, Rhoddion a Lletygarwch | 29.11.2012 |

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Roeddwn i'n rhan o gynllun Cyswllt Beicio Pontybrenin o Bentre'r Ardd i Dregŵyr, ac yn parhau i fod yn rhan fawr ohono. Mae gwaith cynllunio ar waith gydag asesiad opsiwn a gwaith dichonoldeb yn cael eu gwneud ar gyfer y llwybr ar draws Comin Stafford. Sicrhaodd y prosiect gyllid trwy Gonsortiwm Cludiant Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru.

Cwblhawyd y gwaith o gael gwared ar y Lloches i Gerddwyr ar Stryd y Gorllewin ger Llety Lloches Maes yr Efail. Roedd hyn yn dilyn ymgyrch hir gan breswylwyr lleol i gael gwared arno ar sail diogelwch ffyrdd.

Gosodwyd arwyddion newydd yng nghaeau chwarae Llys-y-Brenin i rwystro mynediad i farchogion ceffylau. Derbyniwyd cwynion bod ceffylau yn achosi difrod i'r glaswellt.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer 2012-2013 = £31,900 (cyflog uwch aelod - Aelod o'r Cabinet)

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

**Dyddiad:** **02.01.2014**